

Menter Iaith Caerffili

Proffil Iaith 2021

Mawrth 2021

1. Cyflwyniad

Mae'r proffil hwn yn edrych ar sefyllfa'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, darpariaeth amrywiaeth o fudiadau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r ffordd mae siaradwyr Cymraeg yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Y nod yw edrych ar gyd-destun y Gymraeg heddiw yn yr ardal fel bod modd ystyried sut i gynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yn cynorthwyo'r Fenter i gynllunio'n strategol a gweithredu fel partner dylanwadol wrth i sefydliadau orfod ateb y gofynion statudol sydd arnynt o ran y Gymraeg yn eu hardaloedd. Mae'r proffil yn adlewyrchu darpariaeth arferol mudiadau amrywiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg lleol ond hefyd yn ystyried yr heriau presennol yng nghyd destun COVID-19.

Seiliwyd y proffil hwn ar ystadegau Cyfrifiad 2011; Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, Llywodraeth Cymru; data PLASC Sir Caerffili, Adroddiad Cynnydd Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Sir Caerffili, Llywodraeth Cymru; Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned: Astudiaeth Ymchwil, Prifysgol Bangor 2015; gan gyfeirio hefyd at ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2020 er mwyn ystyried effaith COVID-19 ar fudiadau yn lleol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg neu'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Mae gan
Gaerffili 19,251
o siaradwyr
Cymraeg, sef
11.2% o'r
boblogaeth**

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cyd-destun.....	3
3. Effaith COVID-19	5
4. Demograffeg y Gymraeg	7
5. Cyd-destun Strategol.....	11
6. Trosglwyddo iaith yn y cartref.....	15
7. Addysg.....	18
8. Iechyd a Lles.....	27
9. Gweithle a'r economi.....	31
10. Tai ac Aelwydydd.....	36
11. Gweithgareddau Cymunedol.....	38
12. Astudiaethau Perthnasol.....	46
13. Casgliad.....	48

2. Cyd-destun

Mae sir Caerffili yn ardal hardd ac mae ganddi hanes cyfoethog. Mae'n pontio'r diwydiannol a'r gwledig gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden a diwylliant o bob math. Serch hynny, mae rhai o ardaloedd y sir ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae gan y sir lefelau uwch na'r cyffredin o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd. Hefyd, mae heriau o ran datblygu sgiliau, gyda nifer uwch na'r cyffredin o bobl ifanc 18 a 19 oed yn rhoi'r gorau i addysg amser llawn. Felly mae rhai heriau sylfaenol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal.

Sefydlwyd Menter Iaith Caerffili yn 1999 er mwyn ateb yr angen i hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal drwy greu cyfleoedd a gwasanaethau i drigolion y sir ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau lleol. Prif nod y Fenter yw cynyddu defnydd y Gymraeg ar draws cymunedau'r sir. Mae'r Fenter yn canolbwyntio ei gwaith craidd ar y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau gofal plant a chyfleoedd amrywiol i blant yn ystod gwyliau'r ysgol
- Cefnogi ac annog darparwyr gofal plant i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cyfleoedd i bobl ifanc
- Gweithgareddau i blant a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- Gweithgareddau a chyfleoedd digidol i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cefnogi busnesau lleol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg
- Cyfleoedd cymdeithasol i deuluoedd
- Gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr
- Gweithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol
- Prosiect Hyder sy'n cefnogi siaradwyr dihyder
- Cynnal Gŵyl Ffiliffest yn flynyddol

Mae gan y Fenter nifer helaeth o bartneriaid ledled y Sir gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Dysgu Cymraeg Gwent, Merched y Wawr,

CADW, ysgolion a cholegau, busnesau lleol ac eraill. Un o brif bartneriaid Menter Sir Caerffili yw Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerffili sy'n gyfrifol am ariannu rhai o'r gwasanaethau mae'r Fenter yn eu cynnig drwy'r Gymraeg yn y Sir.

Mae'r Fenter, gyda'i phartneriaid yn y Fforwm Iaith sirol, yn gweithredu fel ffynhonnell o arbenigedd o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal. Mae'n bartner allweddol i'r Awdurdod Lleol o ran ei gynorthwyo i wireddu'r nod o gynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal â chynyddu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ehangu eu defnydd o'r iaith yn eu bywydau bob dydd, bydd angen i'r Cyngor ynghyd â'i bartneriaid gynllunio'n strategol ar gyfer yr hirdymor i gynyddu nifer ei siaradwyr. Yn rhanbarth y De Ddwyrain, mae cynyddu cyfleoedd addysg Gymraeg yn hanfodol, a law yn llaw â hynny, mae angen sicrhau bod gan y gweithlu dwyieithog sy'n cael ei greu, gyfle i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y byd gwaith. Efen bwysig arall yw denu pobl i ddysgu'r iaith o'r newydd ac i fagu hyder yn y sgiliau sydd ganddynt ar ba bynnag lefel, ac mae dilyniant a chefnogaeth yn hollbwysig i hyn.

3. Effaith Covid-19 ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol

Yn ystod mis Medi-Hydref 2020 bu'r Mentrau Iaith yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddsbarthu holiadur ymysg mudiadau a sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ein cymunedau. Pwrpas yr holiadur oedd ceisio mesur beth oedd effaith Covid-19 ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd a gynigir fel arfer ac yn benodol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Bu'r holiadur hefyd yn gofyn beth oedd effaith hir-dymor Covid-19 ar y ffordd roedd y mudiadau yn gweithredu ac yn gofyn iddynt nodi unrhyw benderfyniadau i newid eu ffyrdd o weithio yn sgîl Covid-19. Dylid nodi bod sawl cyfnod clo pellach wedi bod ers y cyfnod clo cyntaf yn ogystal a nifer o gyfyngiadau

Dosbarthwyd yr holiadur ymysg tua 30 o grwpiau neu fudiadau cymunedol gan gynnwys y Fenter ei hun a grwpiau a arweinir gan y Fenter. Dychwelwyd 25 o holiaduron gan amrywiaeth o fudiadau gan gynnwys y canlynol:

- Cylchoedd Meithrin – Mudiad Meithrin
- Grwpiau rhieni a babanod
- Papur Bro
- Eisteddfod y Cymoedd
- Cangen Merched y Wawr
- Yr Urdd
- Grwpiau Dysgwyr

Nododd 96% o'r grwpiau eu bod wedi addasu eu gweithgareddau i fod yn ddigidol gyda dim ond 4% yn nodi eu bod wedi atal gweithgareddau. Sesiynau neu grwpiau plant a babanod oedd y rhai oedd wedi atal eu gweithgareddau dros dro yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Mae'n bwysig nodi bod amgylchiadau'r mudiadau wedi newid erbyn hyn ac rydym wedi cadarnhau bod y grwpiau rhieni a babanod nawr yn cynnal gweithgareddau yn ddigidol.

Nododd y grwpiau i gyd eu bod wedi mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithio NEU ambell ffordd newydd o weithio. Gwelwyd nifer o themâu

cyson wrth ystyried atebion y mudiadau o safbwynt yr hyn maent wedi dysgu yn ystod y cyfnod dan sylw:

- Cyfle i addasu i weithredu'n ddigidol wedi bod yn llwyddiannus
- Y cyfnod wedi bod yn gyfle i arloesi a mentro ychydig
- Y cyfnod wedi tanlinellu bylchau mewn sgiliau digidol.
- Y cyfnod wedi cynnig cyfleoedd i newid arferion gweithio am y cyfnod hirdymor


Cafwyd cyfle hefyd i holi mudiadau ynghylch yr hyn a fyddai'n eu cynorthwyo i barhau a ffynnu yn y dyfodol. Eto, nodwyd nifer o ymatebion cyffredin gan gynnwys:

- Cyllid ychwanegol
- Cefnogaeth bellach i weithredu'n ddigidol
- Cyfyngiadau yn llacio
- Brechlyn effeithiol
- Y cyfle i barhau i dreialu dulliau newydd o weithio ac arloesi

Bwriad y Fenter yw ail-gysylltu â'r grwpiau a gwblhaodd yr holiadur er mwyn ceisio canfod sut maent yn gweithredu erbyn hyn ac a yw'r sefyllfa wedi newid. Yn ystod y cyfnodau clo mae'r Fenter wedi cefnogi nifer o'r grwpiau uchod i weithredu'n ddigidol ac fe fydd unrhyw anghenion am y math yma o gefnogaeth am yr hir dymor yn ystyriaeth i'r Fenter a'i bartneriaid.

4. Demograffeg y Gymraeg

Mae'r map hwn yn dangos sgiliau Cymraeg pobl yn ardal Caerffili yn 2011:



Dangosir canrannau o fewn ardaloedd cynnyrch Cyfrifiad 2011, o fewn adrannau etholiadol

Crëwyd gan Hywel Jones. Cywirwyd newidynnau KS208WA0022-27

Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © Hawffraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013; Yn cynnwys data Arolwg Ordians © Hawffraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013

Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ers 2001. Er y gostyngiad hwn ar draws Cymru ac yng nghanran siaradwyr Cymraeg rhanbarth y De Ddwyrain ei hun, roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn ardal Caerffili wedi parhau yn gyson.

Tabl 1: Cymhariaeth yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011

	Yn gallu siarad Cymraeg Nifer		Yn gallu siarad Cymraeg <i>Canran o'r boblogaeth</i>	
	2001	2011	2001	2011
Caerffili	18,237	19,251	11.2	11.2
Rhanbarth	173,445	174,782	11.6	10.9
Cymru	582,368	562,016	20.8	19.0

Tabl 2: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg Cymunedau Caerffili o Gyfrifiad 2011

Cymuned	Poblogaeth dros 3 oed	Siaradwyr Cymraeg	CANRAN
Cwm Aber	6456	1020	15.8
Sant Martin	8134	1132	13.9
Morgan Jones	6495	875	13.5
Caerffili	13,311	1,760	13.2
Ystrad Mynach	4838	3902	13.2
Pen-yr-heol, Trecennydd ac Eneu'r-glyn	11,949	1571	13.1
Pengam	3687	466	12.6
Nelson	4502	553	12.3
Catwg Sant	7523	899	12
Llanbradach	4222	502	11.9
Maes-y-cwmwr	2175	223	11.9
Aber-carn	5139	600	11.7
Bedwas, Tretomas a Machen	10,361	1186	11.4
Argoed	2652	290	10.9
Hengoed	5322	577	10.8
Twyn Carno	2354	255	10.8

Sant Iago	5748	614	10.7
Moria	4329	459	10.6
Aberbargod	3471	366	10.5
Coed Duon	8242	869	10.5
Dwyrain Rhisga	6228	652	10.5
Cwm Darran	2,512	260	10.4
Crymlyn	5756	590	10.3
Ynys-ddu	3802	387	10.2
Pen-maen	5044	510	10.1
Pontllan-fraith	8237	831	10.1
Bargod	5946	587	9.9
Gilfach	1995	190	9.5
Cefn Fforest	3,749	358	9.5
Crosskeys	3156	285	9
Gorllewin Rhisga	5073	457	9
Trecelyn	6285	557	8.9
Pontlotyn	1862	145	7.8
Tredeggar Newydd	4,728	346	7.3

Tabl 3: Y cymunedau lle gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg

Cymuned	2001	2011	Cynnydd
Abercarn	9.1%	11.7%	2.6%
Maes-y-cwmwr	8.9%	10.3%	1.4%
Nelson	11.0%	12.3%	1.3%
Pengam	11.7%	12.6%	0.9%
Pontllanfraith	9.5%	10.1%	0.6%
Caerffili	13.2%	13.7%	0.5%
Pen-yr-heol, Trecennydd ac Eneu'r-glyn	12.7%	13.1%	0.4%
Gelligaer	11.7%	12.0%	0.3%
Bargod	9.8%	10.0%	0.2%
Cwm Aber	15.7%	15.8%	0.1%

Tabl 4: Cymhariaeth yn niferoedd/canrannau ar draws ystod oedran – rhwng 2001 a 2011

Grŵp oedran	% siaradwyr Cymraeg 2001	% siaradwyr Cymraeg 2011	Nifer siaradwyr Cymraeg 2001	Nifer siaradwyr Cymraeg 2011
Pawb (dros 3)	11.2	11.2	18,237	19,251
3-4 oed	13.0	20.7	570	925
5-9 oed	31.9	33.4	3,674	3,481
10-14 oed	39.8	38.8	4,853	4,265
15-19 oed	26.5	26.5	2,847	2,994
20-24 oed	11.4	12.8	1,059	1,384
25-29 oed	8.4	10.6	924	1,032
30-34 oed	6.5	9.4	822	1,032
35-39 oed	5.1	7.6	649	864
40-44 oed	4.2	5.6	483	737
45-49 oed	3.8	4.4	414	568
50-54 oed	3.7	3.2	446	372
55-59 oed	3.4	3.2	341	345
60-64 oed	2.9	3.0	245	350
65-69 oed	2.5	2.7	192	250
70-74 oed	2.6	2.2	168	166
75-79 oed	3.4	2.2	190	124
80+ oed	5.9	2.8	360	200

Mae cynnydd amlwg o ran y blynyddoedd cynnar a phlant – gwelir bod canran y siaradwyr yn uwch ymhlith y rhai 3-14 oed nag ymhlith cenedlaeth eu rhieni (carfan 25-49 oed). Mae grŵp oedran 5 i 14 yn cynrychioli disgyblion ysgol – dyma’r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn dangos dylanwad addysg Gymraeg ac addysg Gymraeg ail iaith a byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach yn y bennod nesaf.

5. Cyd-destun Strategol

O ran y cyd-destun polisi a deddfwriaeth mae'r Fenter Iaith yn gweithredu ynddo, mae ffocws cenedlaethol amlwg ar y Gymraeg mewn sawl maes, ac mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gwrdd â'r gofynion hyn yn lleol. Dyma'r prif rai:

Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili:

2017-22

Cafodd cynlluniau iaith Gymraeg eu disodli gan drefn newydd o ofynion a ddaeth i rym yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal â rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, mae'r Mesur, drwy reoliadau, yn gosod safonau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyrff yng Nghymru.

Yn eu plith mae safonau hybu (safonau rhif 145 a 146) sy'n golygu bod angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

- **Pennu targedau i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd yn ehangach yn yr ardal, a chynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.**
- **Cyhoeddi canlyniadau hyn yn ogystal â rhestr o weithgareddau sydd wedi'u trefnu neu eu hariannu i hybu defnyddio'r Gymraeg.**

Cyhoeddwyd Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn 2017 a lansiwyd yn swyddogol yng ngwyl Menter Caerffili, sef Ffiliffest. Bu'r Fenter yn rhan allweddol o lunio'r Strategaeth yn enwedig datblygu cynllun gweithredu'r Strategaeth. Mae aelodau'r Fforwm Iaith sirol hefyd yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni'r Strategaeth.

Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg :

Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr

Prif Weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 yw bod yr *“ iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o’i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.”*

Nodir tair Thema Strategol o fewn Cymraeg 2050 sef:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae rhan fwyaf o waith y Fenter yn disgyn o dan Thema 2, wrth i’r Fenter blaenoriaethu datblygu cyfleoedd i gynyddu defnydd yn lleol. Er hynny mae elfennau o waith y Fenter hefyd yn cefnogi ac yn cyfrannu at Themau 1 a 3 hefyd. Cefnoga’r Fenter cyfleoedd yn lleol i ddysgu’r Gymraeg a chynnig cyfleoedd i siaradwyr newydd i bonito rhwng cyfleoedd dysgu a chyfleoedd defnydd. Yn ogystal, mae’r Fenter yn cyflogi dros 70 aelod o staff ac wedi datblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a gweithlu cyfrwng Cymraeg sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr economi leol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Yn eu plith mae sicrhau *'Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’*.

Yn ôl Llywodraeth Cymru: *“Bydd y cynlluniau lles rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol eu paratoi yn sgil Bil Llesiant*

Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffordd bwysig o sicrhau bod y nod o weld y Gymraeg yn ffynnu yn ystyriaeth ganolog o fewn polisi cyhoeddus yn y dyfodol."

Mwy na Geiriau

'Mwy na geiriau...' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nod y targedau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i wella eu gwasanaethau Cymraeg yw bodloni anghenion ieithyddol pobl gan wella ansawdd y gofal.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 - 2020

Mae rheoliadau yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gynhyrchu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA).

Mae'r cynllun yn nodi gweledigaeth y cyngor i ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer 2017 i 2020.

- mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion gyda Anghenion Dysgu Arbennig
- Cynllunio'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae'r Cyngor yn nodi'r canlynol:

Erbyn 2020 byddwn yn:


- **Gwella safonau cyrhaeddiad yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4 ar drothwy Lefel 2+**
- **Codi lefelau presenoldeb •**
- **Lleihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc •**
- **Dal i fynd ati i hybu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar er mwyn ysgogi galw gan rieni**
- **Cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn unol ag arolygon o'r galw gan rieni sef 18% yn y sector cynradd erbyn 2018 (cynnydd o 9.19% yn 1996) ac 20% yn y sector uwchradd erbyn 2023 (cynnydd o 7.30% yn 1996).**
- **Mynd ati i reoli lleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau nad oes gormod o leoedd gwag.**
- **Cydweithio â thîm ysgolion yr 21ain ganrif yn Llywodraeth Cymru i ganfod cyllid ym Mand B o raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ar gyfer datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, yn enwedig ardal Bedwas Tretomos Machen, ac ardal dwyrain Islwyn.**
- **Datblygu safle'r Gwyndy Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gynnwys darpariaeth chweched dosbarth a symud Ysgol Gymraeg Caerffili i'r safle.'**

6. Trosglwyddo iaith yn y Cartref

Yn y cartref hefyd mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn cael eu magu – maen nhw'n fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd siarad Cymraeg yn yr ysgol.

Ar draws Cymru, cyfradd drosglwyddo'r Gymraeg i blant mewn cartrefi lle mae dau riant yn gallu siarad Cymraeg yw 82%. Yng Nghaerffili, 73% yw'r gyfradd hon. Mae hyn yn golygu, mewn cartrefi lle mae plant 3 i 4 blwydd oed, gyda dau riant yn gallu siarad Cymraeg, bod 73% o'r plant yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg yn y cartref. Yn 2001, 64% oedd y ffigur hwn.

Trosglwyddo'r iaith mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg




[Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg/Statiailth]

Mae'n werth nodi'r cynnydd hefyd yn y cartrefi lle mae un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg – o 34% i 45% ac mae hyn yn cyfateb i'r gyfradd genedlaethol o 45%.

Gyda'r duedd ar i fyny, mae'n ymddangos bod potensial eto am fwy o waith i ymestyn dylanwad yn y maes hwn gyda'r 24% hyn o gyplau Cymraeg, a'r cartrefi hynny lle mae un o'r cwpwl yn siarad Cymraeg, ynghyd â'u teuluoedd estynedig. Mae'n bosibl bod cyfle i'r Fenter, ar y cyd â mudiadau eraill sy'n darparu gwasanaethau teuluol yn lleol –

Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Teuluoedd yn Gyntaf, yr Urdd, Dysgu Cymraeg Gwent a Dechrau'n Deg – gael mwy byth o ddylanwad yn y maes hwn, drwy edrych ar y cyfleoedd ar draws y sector.

Tabl 5: Trosglwyddo'r iaith i blant yn y cartref



[Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg / Statiaith]

Cyhoeddodd Lywodraeth Cymru ei Bolisi Cenedlaethol ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn Teuluoedd yn 2021. Mae gwaith y Fenter ac yn wir y Mentrau Iaith ar draws Cymru yn allweddol i'r broses o wireddu'r polisi hwn. Fe fydd y polisi yn blaenoriaethu'r pedwar elfen isod:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- ii. Ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sy'n ddi-hyder eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- iii. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant

Mae nifer o wasanaethau a phrosiectau'r Fenter yn cefnogi'r amcanion uchod ac felly ceir cyfle allweddol dros y blynyddoedd nesaf i gyfrannu'n sylweddol at y broses o wireddu'r Polisi.

7. Addysg

Fel mae Cyngor Caerffili wedi'i nodi yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20, mae ysgogi galw am ddarpariaeth Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar yn allweddol. Mae Caerffili yn ardal sy'n parhau i ddatblygu ac mae unrhyw ddatblygiadau neu ystadau tai newydd yn arwain at gynnydd ym maint y galw ar y system addysg Gymraeg leol. Bwriad Cyngor Caerffili oedd cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn unol ag arolygon o'r galw gan rieni sef 18% yn y sector cynradd erbyn 2018 (cynnydd o 9.19% yn 1996) ac 20% yn y sector uwchradd erbyn 2023 (cynnydd o 7.30% yn 1996).

Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ers iddo ddod i fod yn 1996. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu mwy na 60% i'r lefel bresennol, sef mwy na 2900. Yn ystod y cyfnod hwn o 20 mlynedd, sefydlwyd 3 ysgol ychwanegol a chafodd 7 o'r 8 ysgol wreiddiol adeiladau newydd neu addasiadau / estyniadau er mwyn cynyddu nifer y lleoedd. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cynyddu oddeutu 75% o 900 i 1600. Symudodd yr ysgol i safle newydd yn 2002 a chafodd ei datblygu ymhellach i ail safle (Y Gwyndy) yn 2013. 2,348 yw nifer fwyaf y lleoedd ar y ddau safle gyda'i gilydd a disgwylir eu llenwi tua 2025.

Ceir tystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg uchod ac mae'n dal i fod yn flaenoriaeth iddo fel y dangosir ym Mand A o raglen Llywodraeth Cymru, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r cynllun hwn yn llawn dyheadau ond mae'n amlwg ei fod yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni Rhaglen Lywodraethu 2016-2021 Prif Weinidog Cymru, Symud Cymru Ymlaen, gan weithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd cyllid yn galluogi gwaith tuag at ddyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor B.S.Caerffili erbyn hyn gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg. Un o'r safonau allweddol yw gofyniad i weithredu ei Strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac a fydd yn ei galluogi i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol. Y bwriad yw gweithio'n

strategol gyda partneriaid yn lleol ac yn genedlaethol i roi i ysgolion a darparwyr addysg ar draws ystodau oedran a sectorau ieithyddol y gallu a'r cynaliadwyedd i godi safonau yn y Gymraeg ac i hybu defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd. Nod y Cynllun bydd ysgogi a chyflenwi darpariaeth leol, hygyrch, gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Blynyddoedd Cynnar

Ar hyn o bryd mae 12 Cylch Meithrin a 5 grŵp Ti a Fi ar draws y cymunedau yr ardal. Ceir cymunedau lle nad oes Cylch Meithrin o fewn cyrraedd teuluoedd ac mae Mudiad Meithrin yn datblygu cynllun i sefydlu cylchoedd newydd o fewn rhai o'r ardaloedd hyn.

Mae pontio rhwng y ddarpariaeth feithrin i ysgolion cynradd yn faes allweddol. Yn gyffredinol ar draws y sir, nodir cyfradd drosglwyddo o 80% o Gylchoedd Meithrin i ddarpariaeth gynradd Gymraeg ac mae'r Cyngor yn nodi bod 100% o'r plant sydd mewn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg Dechrau'n Deg yn trosglwyddo i ysgol gynradd Gymraeg. Oherwydd yr her ddaearyddol a phellteroedd teithio, mae angen sicrhau bod cyfle gan bawb i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg yn eu cymunedau.

Mae gan y Fenter rôl bwysig yn natblygiad y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn lleol wrth iddi barhau i ddatblygu ei gwasanaeth gofal plant tu allan i'r ysgol sy'n cynnwys gofal brecwast, cofleidiol, ar ol ysgol ac yn ystod y gwyliau ysgol. Erbyn hyn, cyflogir dros 70 aelod o staff o fewn y gwasanaeth ac mae'r Fenter yn cynnig dros 720 o leoedd gofal plant yr wythnos. Cynygir am dros 60,000 o leoedd gofal plant y flwyddyn ar draws lleoliadau gofal plant y Fenter. Mae'r Fenter wedi adnabod ardaloedd lle mae angen a galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg ac fe fydd yn ymgeisio i ymateb i'r galw hwn dros y blynyddoedd nesaf. Mae gwasanaeth gofal plant y Fenter hefyd yn cefnogi ac yn ymateb i Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir Caerffili.

Y Ffordd i Ddwyieithrwydd ar gyfer y Sector Gofal Plant

Yn ogystal â darpariaeth gofal plant y Fenter, bu Menter Iaith yn llwyddiannus wrth ennill cytundeb oddi wrth Gyngor B.S.Caerffili ym Mawrth 2018 i ddarparu cefnogaeth a chyngor i drawstoriad o leoliadau gofal plant i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Menter Caerffili yn cyflogi Swyddog Cefnogi er mwyn datblygu'r gefnogaeth hwn sy'n cynnig pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth i ofalwyr plant, cylchoedd meithrin a meithrinfeydd preifat. Mae'r Fenter yn parhau i weithredu ein cynllun ar gyfer darpariaethau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg sef, 'Y Ffordd i Ddwyeithrwydd'. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i amrywiaeth o leoliadau gofal plant i ddatblygu gan gytuno ar dargedau ymarferol er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar draws elfennau o'u gwaith. Bwriedir datblygu'r cynllun ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gan gefnogi rhagor o ddarpariaethau i fabwysiadu'r cynllun.

Addysg Cynradd

Ar hyn o bryd mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol sydd gyda'i gilydd â bron 3000 o leoedd. Ar draws Cymru gyfan, mae tua 22% o blant yn cael addysg gynradd Gymraeg, gyda rhyw 17% o ddisgyblion yn cael addysg uwchradd Gymraeg. Ond yn y sector addysg bellach mae'r ganran o dan 5%, ac mae hyn yn debyg o ran addysg uwch hefyd.

Rhwng 2001 a 2011 gwelodd Caerffili gynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg.

Tabl 6: Canran y plant 7 oed yn ardal Caerffili sy'n derbyn addysg Gymraeg

2001	2011
11%	17%

Er y twf yma, i gyrraedd at y nod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi gosod targed o sicrhau bod 18.98% o blant 7 oed yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2017.

Ar draws Cymru, mae cwmp cyffredinol o 14% wedi bod yn nifer y plant oed ysgol rhwng 2001 a 2011. Mae'r ffaith na welwyd cwmp cyfatebol yn nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn amlygu maint y galw.

Mae un peth yn dod i'r amlwg wrth edrych ar ffigurau addysg Gymraeg Caerffili a'r rhanbarth i gyd, ac mae hyn yn creu heriau gwahanol i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid. Ar y llaw arall, mae modd ffocysu ar gyfleoedd posibl hefyd.

Os byddwn yn edrych ar ganran siaradwyr Cymraeg 5-14 oed yn Nhabl 4, rydym yn gweld bod mwy o siaradwyr Cymraeg ymhlith plant oed ysgol Caerffili nag sy'n cael addysg Gymraeg. Mae'n debygol felly bod rhai rhieni plant sy'n cael gwersi Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi nodi ar ffurflen y Cyfrifiad bod eu plant yn siarad Cymraeg. Gellid dadlau bod hyn yn adlewyrchu balchder yn yr iaith, a ffydd mewn addysg i ddarparu'r sgiliau hynny.

Os yw'r balchder a'r ffydd yma'n bodoli felly, mae'n ymddangos nad yw'r system addysgu Cymraeg fel ail iaith yn ateb y galw. Gwelir hyn drwy edrych ar y tabl isod, sy'n nodi nifer y plant 10-14 sy'n siarad Cymraeg yn 2001, a'r un garfan o'r boblogaeth 10 mlynedd yn ddiweddarach:

Siaradwyr Cymraeg Caerffili	2001	2011
10-14 oed	39.8%	
20-24 oed		12.8%

Yma, gwelwn awgrym nad yw nifer o'r disgyblion ysgol oedd yn 10-14 oed yn 2001 wedi gallu cadw'r sgiliau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r ail ffigur yn nes at y ganran o'r boblogaeth oedd yn cael addysg Gymraeg fel iaith gyntaf wrth gwrs.

Wrth gwrs, mae mwy nag un ffactor yn gyfrifol am y newid, fel siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael yr ardal, ond mae'n tanlinellu'r pwynt na ddylid gorddibynnu ar addysg i greu a chynnal siaradwyr Cymraeg heb fod yna gynllunio strategol rhwng nifer o asiantaethau a phartneriaid i wella'r ddarpariaeth addysg ei hun, ac ehangu cyfleoedd y tu allan i fyd addysg ac i mewn i'r gweithle.


Addysg Uwchradd

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymini dau safle (Gelli Haf a'r Gwyndy) sy'n darparu 2,348 o leoedd. Mae data PLASC ar gyfer 2020 yn dangos graddfa trosglwyddo o 99.8% o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir i Ysgol Gyfun Cwm Rhymini sydd wedi aros yn gyson yn ystod blynyddoedd diweddar.

Yn ôl data PLASC ar gyfer 2019/20 roedd 14.9% o ddisgyblion 14-16 oed yn Sir Caerffili yn astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n gynydd ar 12.9% a welwyd yn 2018-19. Yn yr un modd cofnodwyd bod 24.6% o ddisgyblion 16-19 oed yn astudio cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019-20 sy'n gynydd ar 22.6% yn 2018-19.

O ran defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol, mae'n gyfnod tyngedfennol o ran sefydlu patrymau defnydd. Yn ôl yr Arolwg Defnydd, *'gwelwyd eisoes bod y rhai 16 i 29 oed yn llai tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o siarad Cymraeg bob dydd'*.

Cefnogir yr her hwn trwy'r data a welir isod. Mae'r siart isod yn cymharu'r niferoedd o blant 5-14 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 â'r niferoedd o bobl ifanc 16-24 a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Gan fod y grwp oedran yn 2011 yn cynnwys un flwyddyn yn llai, byddai'n rhesymol disgwyl tua 10% o leihad. Dengys y data serch hynny, fod lleihad mwy sylweddol na hynny sy'n tanlinellu'r angen yn lleol i fod yn cefnogi pobl ifanc i barhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth ddilyn gyrfa, magu teulu a'u hannog i fod yn arweinwyr cymunedol lleol trwy gyfrwng y Gymraeg.



Yn ôl ymchwil Prifysgol Bangor, mae bwlch amlwg mewn darpariaeth Gymraeg i bobl ifanc hŷn:

'Gellid awgrymu bod hyn yn peryglu'r dilyniant a'r cynnydd ieithyddol o'r sector addysg ac yn atgyfnerthu canfyddiad pobl ifanc mai iaith addysg yn unig yw'r Gymraeg.'

Ers ryw 18 mlynedd, mae'r Fenter, yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili wedi cyd-ariannu a chyd-reoli Swyddog Ieuenctid er mwyn cynllunio gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn strategol. Petai buddsoddiad pwrpasol, gallai'r Fenter a'r Urdd gynorthwyo'r Cyngor i wneud mwy gyda'r ystod oedran hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai modd manteisio ar raglenni gwirfoddoli sy'n bodoli eisoes ym myd addysg, er enghraifft Bagloriaeth Cymru a Gwobr Dug Caeredin, i gyflwyno pobl ifanc i'r syniad o gyfrannu at eu cymunedau drwy wirfoddoli ac ehangu ar y gwaith mae'r Fenter eisoes yn ei gwneud gyda gwirfoddolwyr ifanc gyda Ffiliffest er enghraifft.

Addysg Bellach

Blaenoriaethau presennol Coleg y Cymoedd yw ymestyn ystod, math a lefelau'r cyrsiau Gofal Cwsmer cyfrwng Cymraeg Yr Iaith ar Waith. Mae'r darpariaeth wedi ei ffocysu ar bynciau a nodir gan Lywodraeth Cymru fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygiad iaith Gymraeg.

Roedd Cyfnod 1 wedi cymryd lle yn ystod 2014-15 pan gyflwynwyd y cwrs i fyfyrwyr Gofal Plant/Iechyd a Gofal / Arlwygo.

Cyfnod 2 - Busnes/Teithio a Thwristiaeth(a'r pynciau o Gyfnod 1)

Cyfnod 3 – Y Diwydiannau Creadigol (a'r pynciau o Gyfnod 1 a Chyfnod 2)

Cyfnod 4 - Peirianeg/ Adeiladwaith (a phwnc o Gyfnod 1/2/3)

Yn ogystal â hyn, mae unedau ar draws cyrsiau prif ffrwd yn cael eu cyfwyno (e.e Busnes ers 2016-17) i gynnig wir ddewis i'w myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae'r ysgol yn gwahodd staff y Coleg i mewn i siarad â disgyblion maen nhw'n teimlo bydd yn debygol o ddod atom ni am 16 oed a hefyd yn gwahodd y Coleg i gael stondin yn eu Noson Wybodaeth i Flwyddyn 11. Rhoddir sylw i nid yn unig y cyrsiau sydd ar gael yn y Coleg ond hefyd sut gall disgyblion o'r ysgol weithio er mwyn cynnal eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r Coleg yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Astudiaethau Ceir ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10/11 o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni fel rhan o'r gwaith partneriaeth rhwng y Coleg a'r ysgol. Mae hwn yn hwyluso strategaeth osgoi NEETs yr ysgol.

Mae eu disgyblion wedi elwa o ddod i gyrsiau cyfrwng Cymraeg undydd yn y Coleg (mewn Astudiaethau Ceir, Arlwygo a Ffrangeg eleni) sydd wedi cael eu cyllido gan y Fforwm Trawsffiniol De Ddwyrain Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog . Nid yw'r Llywodraeth bellach yn cyllido'r Fforymau, felly mae'n anodd cynllunio heb gyllid. Mae'r Coleg mewn trafodaethau gydag ysgolion Caerffili a Rhondda Cynon Taf i drafod os oes ffordd o sicrhau bod y gwaith da hwn yn parhau.

Mae'r Coleg yn cynnig hyfforddiant (gwersi Cymraeg) i'w staff fel rhan o'i Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff i gwblhau Holiadur Staff er mwyn adnabod unrhyw sgiliau iaith Gymraeg a

defnyddir y wybodaeth er mwyn targedu hyfforddiant addas a defnyddir ar y cyd a'r awdit mae angen i Reolwyr ei gwblhau ar gyfer unrhyw swyddi er mwyn adnabod os oes angen eu dynodi fel Cymraeg Hanfodol neu Ddymunol ac i adnabod os oes bwlbh sgiliau.

Mae pob dysgwr yn gorfod mynychu sesiwn anwytho wrth ymuno â'r Coleg ac mae adran am y Gymraeg yn rhan o hynny sydd yn rhoi'r wybodaeth ganlynol;

- Bod hawl gyda nhw cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg (yn dibynnu ar ganllawiau'r Corff Dyfarnu) hyd yn oed os na fydd y tiwtor yn siarad Cymraeg
- Eu bod nhw'n gallu gofyn am nodiadau/asesiadau yn Gymraeg
- Bod llyfrynnau bach dwyieithog ar gael sy'n rhoi'r termau Mathemategol yn ddwyieithog i helpu nhw yn enwedig yn ystod y cyfnod o symud o'r ysgol i'r coleg

Mae cyfleoedd i fyfyrwyr i gynnal a gwella eu sgiliau iaith yn anffurfiol drwy ystod o weithgareddau gwahanol e.e bore coffi/mynd i weld 'Jonathan' yn cael ei ffilmio yn Stiwdios y BBC/ gweithgareddau'r Urdd fel Diwrnod Awyr Agored a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Maent yn cael cyfle i gyfrannu at ddyddiau thema-Gymraeg/Gymreig fel 'Diwrnod Shwmae, Su'mae' a'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sy'n digwydd yn ystod yr Wythnos Gymraeg. Mae'r dysgwyr eu hunain yn perfformio yn ogystal. Mae'r Coleg yn awyddus i ddatblygu ymhellach cyfleoedd anffurfiol i fyfyrwyr i siarad Cymraeg trwy gydweithio gyda'n partneriaid o fewn y Fforwm Iaith.

Cymraeg i Oedolion

Dysgu Cymraeg Gwent

Mae Coleg Gwent yn cynnig lluo o gyrsiau ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r cyrsiau hyn yn rhaglenni sy'n cyfuno dysgu yn y dosbarth ac astudio ar-lein neu ddosbarthiadau wythnosol gyda'r hwyr a dysgu dwys. Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn gweithio yn ardal Caerffili gan ddarparu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion

Mae *Dysgu Cymraeg Gwent* am:

- gynyddu'r niferoedd sy'n dysgu'r Gymraeg yn yr ardal trwy gynnal a datblygu rhaglen eang o gyrsiau i ddysgwyr o bob lefel o ddechreuwyr pur (lefel Mynediad) i'r rhai sy'n weddol rugl (lefel Hyfedredd)
- cynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac yn parhau i ddysgu'r Gymraeg yn yr ardal
- cynyddu'r niferoedd sy'n cyrraedd rhuglder yn yr ardal
- cynyddu'r niferoedd sy'n gwybod am wersi Cymraeg yn yr ardal a chodi proffil y maes a
- chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus yn yr ardal.


Arbenigedd *Dysgu Cymraeg Gwent* yw'r cyrsiau dwys – 4 awr (3 awr yn y dosbarth ac 1 awr ar y we yn gwneud gweithgareddau i atgyfnerthu'r hyn a addysgir yn y wers). Hefyd cynigir cwrs dwys iawn – 9 awr yr wythnos – i'r rhai sy am ddysgu Cymraeg yn gyflym.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent i ddatblygu a chynnal y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae'r rhaglen yn cynnwys dosbarthiadau amrywiol ar draws cymunedau'r sir o fewn canolfannau addysg oedolion, Coleg y Cymoedd, dosbarthiadau yn y gweithle a dosbarthiadau Cymraeg i'r teulu.


Yn ogystal â'r dosbarthiadau rheolaidd mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn darparu nifer fawr o weithgareddau dysgu anffurfiol sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o bob lefel ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfa gymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn ddatblygiad cynyddol sy'n allweddol i ddysgwyr y Gymraeg. Yn hyn o beth mae *Dysgu Cymraeg Gwent* yn cydweithio'n agos iawn â Menter Iaith Caerffili er mwyn sicrhau bod dysgwyr Caerffili'n cael y cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg maen nhw'n ei dysgu yn yr ystafell ddosbarth a defnyddio'r Gymraeg â siaradwyr eraill ardal Menter Iaith Caerffili.

8. Iechyd a Lles


Dengys y data cyfredol gan yr ONS bod iechyd siaradwyr Cymraeg yn well na'r boblogaeth yn gyffredinol a hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd lle mae iechyd yn gyffredinol wael fel cymoedd y de-ddwyrain. Yn debyg i lawer o faterion eraill dydy data Sir Caerffili a nodir isod ddim yn golygu llawer heb ystyried cymhariaeth â siroedd eraill er mwyn gweld eu harwyddocâd. Y siroedd sy'n dangos y cyfrannau uchaf o afiechyd neu anabledd ymhlith siaradwyr Cymraeg ydi siroedd Caerfyrddin a Chastellnedd Port Talbot sydd mae'n debyg yn adlewyrchu poblogaeth hŷn yn yr ardaloedd hyn.





Cyfyngiadau cyflwr iechyd ar fywyd bob dydd siaradwyr Cymraeg 3 oed a throsodd



Iechyd cyffredinol yn ôl gallu i siarad Cymraeg (pawb dros 3 oed)





Mae'r Fenter yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn ddiweddar, datblygwyd Fforwm Mwy na Geiriau ac mae'r Fenter yn aelod ohono. Ceir enghreifftiau llwyddiannus o gydweithio rhwng Cymraeg i Blant â Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd. Yn ogystal, bu'r Fenter ynghyd ag aelodau eraill y Fforwm Iaith yn gyfrifol am ddatblygu a chyhoeddi'r adnodd, 'Bod yn Ddwyieithog' sy'n cefnogi teuluoedd lleol i fagu plant yn ddwyieithog. Dosbarthir yr adnodd yn eang trwy ymwelwyr iechyd. Mae cyfnod COVID-19 wedi tanlinellu'r cysylltiad cryf rhwng iechyd a lles a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau lleol. Ceir cyfle felly i gydweithio'n agosach gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg lleol mynediad cyson at wasanaethau iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

9. Y Gweithle a'r Economi

Yn 2013, cynhaliwyd ymchwil i anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector yng Nghymru ac fe nodwyd:

Er bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r ymdrech i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes hanfodol er mwyn symud tuag at gymdeithas ddwyieithog.

Mae'r maes gofal plant yn enghraifft amlwg lle mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu dwyn i mewn i weithle penodol i ateb anghenion clir mewn maes lle mae'r galw yn cynyddu. Mae'r Fenter ei hun yn cynnal gwasanaethau i hybu cyflogaeth a chyfleoedd gwaith i weithlu Cymraeg, ac mae hyn yn cynnig sail i drafodaethau pellach ymhlith rhanddeiliaid yn enwedig yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod y Gymraeg yn cael lle mwy amlwg yn y gweithle, ac mae'r Cyngor Sir yn benodol yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn gyda mwy o gyfleoedd i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r sector cyhoeddus yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr, o gymharu â siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y sector preifat.

Yn yr arolwg o'r wyth sector yn 2013 nodwyd bod 'gan ddau draean (66 y cant) o'r cyflogwyr staff â sgiliau Cymraeg, a dywedodd ychydig dros draean ohonynt fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle (35 y cant)'.



Mae'n ymddangos bod proffil y Gymraeg yn y gweithle yn cynyddu yn raddol, gyda chymorth Safonau'r Gymraeg a gwaith hyrwyddo ar lefel leol.


Yn ôl yr Arolwg Defnydd, roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg, o gymharu â 41% yn y sector preifat

Ond ni ddylid cymryd y shifft cadarnhaol hwn yn ganiataol. Mae gwaith i'w gwneud o hyd, i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg yn y gweithle ac i gynyddu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil.

Yn yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn 2013, nodwyd bod prinder sgiliau yn broblem i gyflogwyr yng Nghymru, gyda sgiliau cynllunio a threfnu yn cyfrif am 57% o'r bylchau mewn sgiliau, ond roedd prinder sgiliau Cymraeg (llafar ac ysgrifenedig) i'w briodoli, yn rhannol o leiaf, i dros chwarter yr holl fylchau sgiliau mewn swyddi yng Nghymru. Yn y cyddestun hwn, efallai fod achos dros gryfhau gwaith gyda phartneriaid i hyrwyddo a datblygu sgiliau yn benodol ar gyfer y gweithle.


Ar ochr arall y geiniog, fel y nodwyd eisoes, mae nifer o bobl leol wedi pwysleisio'r angen i allu adnabod siaradwyr Cymraeg wrth ddelio â phobl wyneb yn wyneb mewn sefydliadau cyhoeddus, busnesau a siopau. Mae galw am hyrwyddo bathodynau iaith gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol – yr arfer gorau fyddai cynnal trafodaeth gyda staff, sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth o'r angen i hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg ynghyd â thawelu unrhyw bryderon all fod ganddyn nhw.





Mae'r data cymwysterau hefyd yn dangos cymwysterau uwch ymhlith pobl sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig yn y de-ddwyrain fel y dangosir o fewn data Sir Caerffili isod. Gwelir taw 29% o siaradwyr Cymraeg dros 16 oed Sir Caerffili sydd â chymwysterau Lefel 4 ac uwch o gymharu â 17% o bobl sydd heb sgiliau Cymraeg a 19% o'r boblogaeth yn gyffredinol. Fe fydd cefnogi'r siaradwyr Cymraeg hyn i fod yn arweinwyr cymunedol dros y Gymraeg yn lleol ac i gyfrannu at ddatblygiad yr economi leol yn allweddol er mwyn annog perchnogaeth leol dros hyfywedd y Gymraeg.

Cymwysterau uchaf pobl dros 16 oed sy'n gallu deall
Cymraeg llafar yn unig



10. Tai ac Aelwydydd

Yn y tabl isod mae ffigyrau pris tŷ cyfartalog yng Nghymru ac yn Sir Caerffili gyda Sir Gâr yn llai na cyfartalog Cymru yn Awst 2020, gyda blwch o £5,500 yn 2011 a blwch o £20,000 erbyn 2019.

Tabl 1: Pris tŷ cyfartalog Cymru a Sir Caerffili, yn Awst 2020 (£)

	Awst 2020
Cymru	172,828
Sir Caerffili	146,602

O gyfrifiad 2011 mae 74,479 o gartrefi yn Sir Caerffili. Allan o'r 74,479 mae 69.6% wedi cael eu prynu gyda'r gweddill wedi eu rhentu gan yr Awdurdod Lleol, Cymdeithas Dai neu landlord preifat.

Mae'r tabl isod isod (tabl 2) yn edrych ar ddeiliadaeth wrth edrych ar sgiliau iaith Cymraeg a'r gallu i siarad Cymraeg ar gyfer 74,479 o drigolion Sir Caerffili wrth edrych ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg a dim sgiliau yn y Gymraeg.

Tabl 2: Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl deiliadaeth - Personau Cyfeirio'r Cartref
(Office for National Statistics Tenure by Welsh Language Skills)

	Pob categori: Sgiliau Cymraeg	Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg	Dim sgiliau yn y Gymraeg
Pob categori: Daliadaeth	74,479	6702	67,777
Perchnogaeth neu berchnogaeth a rennir yn llawn	51,848	4890	46,958
Perchnogaeth: berchen yn llwyr	24,188	1983	22,205
Perchnogaeth: perchen gyda morgais neu	27,660	2907	24,753

fenthyciad neu berchnogaeth a rennir			
Rhent neu rent byw am ddim yn llawn	22,631	1812	20,819
Rhent: rhent cymdeithasol	13,962	878	13,084
Rhent: rhent preifat neu rhent byw am ddim	8669	934	7,735

11. Gweithgareddau Cymunedol a Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ganlyniadau arolwg 'Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru' (yr Arolwg Defnydd). Hefyd, yn 2015 cyhoeddodd Prifysgol Bangor ganlyniadau eu hastudiaeth ymchwil ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yng Nghymru. Mae'r ddwy astudiaeth hon yn rhoi data a darlun gwerthfawr o'r ffordd y mae pobl yn defnyddio'r iaith.

Rhwng arolwg defnydd 2004-6 ac un 2013-15, mae Caerffili wedi gweld cynnydd o 1000 o siaradwyr rhugl a chynnydd o 8,900 o siaradwyr sydd ddim yn rhugl.

Mae'r Arolwg Defnydd yn dangos mai pobl rugl sydd fwyaf tebygol o fod yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd. Hefyd, yn ôl yr Arolwg Defnydd, mae siaradwyr Cymraeg rhugl ddwywaith yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn Gymraeg na phobl sydd ddim yn rhugl.

Er y cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Caerffili, mae'r Arolwg Defnydd yn dangos bod canran y bobl yn yr ardal sy'n siarad y Gymraeg bob dydd wedi gostwng o 46% i 38%.

Yn ardal Caerffili a'r De Ddwyrain i gyd, er bod llawer o'r ymatebwyr yn dweud bod y Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd, roedd mwyafrif y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref neu gyda ffrindiau. Yn yr ardal yma felly mae Menter Caerffili wedi datblygu cyfleoedd y tu hwnt i hynny. Yn sgil y cyfleoedd hyn i ddefnyddio'r Gymraeg mewn

rhyngweithiadau/cyswllt anffurfiol o ddydd i ddydd mewn cylchoedd ehangach na'r siaradwyr Cymraeg rydyn ni'n eu hadnabod golyga bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio ar lefel gymunedol. Mae hyn yn ei dro y gallwn sicrhau cynnydd mewn defnydd.

Yr her i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid, felly, yw targedu ymdrechion i'r meysydd ehangach hyn; sefydlogi ac ehangu cyfleoedd i siaradwyr rhugl; datblygu hyder pobl sydd ddim yn rhugl a hwyluso dulliau o'u cynnwys; hyrwyddo defnydd pellach mewn gweithleoedd ac o ran sefydliadau a busnesau sy'n wynebu'r cyhoedd i'w gwneud hi'n haws defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd anghyfarwydd neu newydd.

Y Gymuned

Yn y De Ddwyrain, lle mae'r Gymraeg yn iaith leiafrifol ym mhob cymuned ddaeryddol, mae cynnal a hwyluso cymunedau o siaradwyr Cymraeg ar draws pob ystod oedran yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.

Mae sawl ystyr i gymuned pan fyddwn ni'n sôn am siaradwyr Cymraeg wrth gwrs. Mae cymuned yn fwy na lleoliad daeryddol, mae'n bodoli ar draws ffiniau ardal a rhanbarth, a bellach gyda chyfryngau cymdeithasol, gellid dadlau nad oes ffiniau i gymuned Gymraeg o'r fath. Mae'r Gymraeg yn rhywbeth sy'n uno pobl yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'n nodwedd ychwanegol o hunaniaeth sy'n creu cyswllt rhwng pobl ac sy'n sbarduno gweithgaredd a rhyngweithio.

Mae ymchwil wedi dangos bod sawl ffactor yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned. Yn gyntaf, er bod gan yr iaith statws swyddogol, mae'n iaith leiafrifol ac nid yw'n amlwg felly fel iaith gymunedol yn yr ardal hon. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu prinder cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ffactor amlwg arall yw hyder pobl i ddefnyddio'r iaith ac a yw pobl wedi arfer defnyddio'r Gymraeg – fe wyddom fod pobl sydd ddim yn rhugl yn llai tebygol o siarad Cymraeg bob dydd a mynychu digwyddiadau Cymraeg.

Wrth i Fenter Caerffili cynnal gwaith ymchwil ac ymgynghoriadau diweddar er mwyn cadarnhau beth fyddai'n helpu i ehangu defnydd o'r

Gymraeg yn y gymuned, roedd nifer o ymatebion o bobl leol yn adleisio'r themâu canlynol:

- Mwy o weithgareddau teuluol a chymdeithasol
- Cefnogaeth yn y gweithle i ddatblygu sgiliau Cymraeg
- Modd o adnabod siaradwyr Cymraeg mewn siopau, banciau, meddygfeydd ac ati, gyda bathodynau iaith gwaith er enghraifft
- Canolfan leol i bobl gymdeithasu yn Gymraeg
- Mwy o amlygrwydd ar y we – ar wefannau a gydag apiau
- Creu cyfeirlyfr o wasanaethau/siopau/caffis ac yn y blaen lle mae modd cael gwasanaeth yn Gymraeg
- Rhai yn dweud mwy o ddigwyddiadau yn ystod y dydd ac eraill yn dweud bod angen mwy o ddigwyddiadau y tu allan i oriau gwaith.
- Cyfleoedd i bobl 20-40 oed gwrdd a chymdeithasu

Darpariaeth i blant a theuloedd

Mae gan y Fenter rhaglen cynhwysfawr wythnosol, misol ac yn ystod y gwyliau ysgol ar gyfer plant oedran cynradd a'u teuloedd. Darperir rhan o'r rhaglen hon ar y cyd â partneriaid neu yn annibynol. Mae'r rhaglen arferol yn cynnwys:

- Sesiynau Sblash a Chân i rieni a babis
- Gweithdai amrywiol ar ol ysgol ac yn ystod y gwyliau megis celf a chreffft, coginio, animeiddio, lego, cartwnio
- Digwyddiadau i deuluoedd megis Miri Meithrin, Picnic yn y Parc, gweithgareddau awyr agored
- Teithiau
- Sgwad Sgwennu
- Rhaglen o gyfleoedd digidol megis clybiau a gweithdai gemau fideo, datblygu cynnwys, animeiddio

Partneriaid allweddol:

- Cymraeg i Blant
- Celf Ar y Blaen
- Cyngor B.S.Caerffili – Adran Hamdden a Datblygu'r Celfyddydau

Y Siarter Iaith

Erbyn hyn, mae'r Siarter Iaith yn weithredol ar draws ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg y Sir gyda'r 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i ddilyn y Siarter a'i egwyddorion. Bwriad y Siarter yw cefnogi disgyblion ac ysgolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol, wrth chwarae ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae gan bob ysgol targedau er mwyn cyrraedd lefelau Efydd, Arian ac Aur y Siarter ac mae modd mesur effaith y Siarter ar ddefnydd iaith disgyblion yn flynyddol. Mae gan y Fenter rôl allweddol wrth gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Er mwyn cefnogi'r ysgolion gyda'r gwaith hwn, mae'r Fenter wedi bod wrthi'n cynnal gweithdai a chlybiau digidol yn rhai o'r ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi'n gwaith o ddatblygu cymuned cyfrwng Cymraeg ar-lein gan annog plant a phobl ifanc i greu cynnwys ar-lein yn Gymraeg a rhwydweithio yn Gymraeg ar-lein. Yn ogystal, bu'r Fenter yn gweithio mewn partneriaeth â'r mudiad Celf Ar y Blaen er mwyn gweithredu prosiect darllen cyffrous newydd a oedd yn plethu llenyddiaeth cyfrwng Cymraeg gyda technoleg.

Darpariaeth i Bobl Ifanc

Ers 2002, mae'r Fenter wedi cyd-cyflogi a chyd-ariannu Swyddog Ieuenctid gyda'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili. Golyga hwn ein bod yn medru cynllunio gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn strategol. Mae'r Swyddog Ieuenctid yn cefnogi'r unig Glwb Ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn y Sir a ariennir gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor B.S.Caerffili yn ogystal a chefnogi siaradwyr Cymraeg ifanc sy'n derbyn addysg trwy rhaglenni addysg tu allan i'r ysgol. Mae'r Swyddog Ieuenctid hefyd yn cydweithio â staff y Fenter er mwyn cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg a threfnu rhaglen o weithgareddau yn ystod y gwyliau ysgol.

Mae ein Swyddog Datblygu Digidol hefyd yn darparu rhaglen sylweddol o gyfleoedd digidol i bobl ifanc gan gynnwys clybiau wythnos a misol, gweithdai creu cynnwys ac adeiladu PC, teithiau i ddigwyddiadau digidol yn ogystal a chystadleuaethau o fewn twrnamentau e-chwaraeon.

Yr Urdd

Urdd Gobaith Cymru yw 'r mudiad ieuenctid gwirfoddol mwyaf yng Nghymru ac yn eithriadol bwysig wrth gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg gyda dros 56,000 o aelodau. Sefydlwyd yr Urdd yn 1922, a'r nod yw rhoi cyfleoedd i bob person ifanc yng Nghymru (8-25 oed) trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u grymuso i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau ac i Gymru. Am bron i ganrif mae'r Urdd wedi canolbwyntio ar roi profiadau anhygoel i bobl ifanc trwy'r Gymraeg, er mwyn iddyn nhw feithrin agweddau cadarnhaol tuag ati, a'i throsglwyddo i'w plant eu hunain.

Mewn cyfnod o newid fel hyn nid yw'n berthnasol rhoi'r wybodaeth am y gwasanaeth cyn Covid19, roedd swyddogion wedi eu lleoli ymhob ardal cyn cyfnod hwn, bydd yr Urdd yn cyfathrebu a chydweithio'n agos gyda nifer fawr o bartneriaid gan gynnwys y Mentrau Iaith a mudiadau wrth ail adeiladu gwasanaethau ar ôl y cyfnod hwn.

Bydd y cynlluniau ail-adeiladu yn cynnwys:-

- Ail adeiladu'r rhwydwaith cenedlaethol o swyddogion cymunedol i gynnal darpariaeth chwaraeon, celfyddydau a chymunedol ym mhob awdurdod lleol.
- Ehangu darpariaeth Prentisiaethau mewn cyfnod heriol yn economaidd i gynnig cymwysterau a chyflogaeth yn y Gymraeg.
- Cynnal Eisteddfod T ddigidol gwell a mwy ym Mai 2021 a gosod y seiliau i gynnal Eisteddfod Canmlwyddiant yr Urdd mewn cas yn 2022.
- Ail gychwyn, yn unol â chyfyngiadau COVID, cyfnodau preswyl, mewn gweryslyoedd ar ei newydd wedd yn dilyn buddsoddiad cyfalafol i'w uwchraddio.
- Paratoi ar ddathliadau canmlwyddiant yr Urdd a nifer fawr o ddigwyddiadau cyffrous ar draws Cymru a fydd yn ehangu'r cyfleoedd plant a phobl Ifanc I ddefnyddio'r Gymraeg.

Ffermwyr Ifanc

Daw Sir Caerffili o dan aelodaeth Gwent gyda 256 o aelodau dros 6 clwb o fewn ardal. Mae tua 14 o rhain yn medru ar y Gymraeg, er nid dyma eu hiaith gyntaf. Mae nifer o golegau o fewn yr ardal yn cynnig cyrsiau Cymraeg, ac tri Ysgol Uwchradd o fewn yr ardal. Er ni fedrai nifer o aelodau siarad yr iaith, mae nifer yn awyddus i'w ddysgu o fewn yr ardal yma gyda 3 aelod o glwb Frynbuga eisoes wedi ymuno a'r clwb darllen i ddysgwyr sy'n cael ei rhedeg gan CFFI Cymru. Ceir yn sicr gyfle i greu cysylltiadau gwell rhwng y Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith a Swyddogion yr Urdd.

Oedolion

Mae gan Menter Caerffili darpariaeth amrywiol i oedolion sy'n cynnwys darpariaeth misol ac wythnosol. Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth yn annibynol o bartneriaid eraill yn sgîl cyfyngiadau ariannol ond hefyd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gyrff eraill. Yn ystod y cyfnodau clo mae'r ddarpariaeth wedi parhau yn ei gyfanrwydd ond trwy platfformau digidol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys dosbarthiadau a gweithdai amrywiol megis coginio, trefnu blodau, celf, yoga, ffitrwydd, lles, sgiliau digidol
- Clwb Cerdded wythnosol
- Cyfleoedd i wirfoddoli ar draws gwasanaethau'r Fenter
- Sesiynau sgwrsio wythnosol a misol
- Teithiau
- Clybiau darllen
- Clwb Garddio
- Nosweithiau cymdeithasol
- Cefnogaeth i unigolion ynysig a bregus
- Gŵyl Ffiliffest

Merched y Wawr

Mae gan MyW un gangen yn y sir sef Cangen Cwm Rhymni gyda 22 o aelodau. Mae ganddynt raglen amrywiol iawn o gyfarfodydd, nosweithiau

gymdeithasol, teithiau a sgysiau. Yn ystod y cyfnodau clo, mae'r Fenter wedi bod yn hwyluso cyfarfodydd dros Zoom ar ran y gangen.

Dysgwyr

Mae darparu gweithgareddau i ddysgwyr y Gymraeg wedi bod yn flaenoriaeth i'r Fenter ers y cychwyn. Erbyn hyn mae gan y Fenter nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n dibynnu ar y Fenter am gyfleoedd i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac i gwrdd â dysgwyr eraill. Darperir boreau coffi wythnosol, Sadyrnau Siarad yn fisol a dau Glwb Darllen yn fisol. Yn ogystal trefnir nifer o ddigwyddiadau yn arbennig ar gyfer dysgwyr yn ystod y flwyddyn megis nosweithiau cwis, teithiau cerdded a chylch cinio achlysurol. Trefnir taith flynyddol er mwyn cynnig cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yr ardal i ymweld ag ardal wahanol o Gymru wrth ddefnyddio'u Cymraeg. Mae'n bwysig nodi bod y Fenter wedi derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad diffuant oddi wrth ddysgwyr y sir ers cychwyn y Fenter ac erbyn hyn mae grŵp craidd o ddysgwyr yn mynychu pob gweithgaredd a gynigir. Mae'r Fenter hefyd yn gweithio'n agos â Dysgu Cymraeg Gwent wrth lunio ei raglen o gyfleoedd i

ddysgwyr ac er mwyn sicrhau fod rhaglen amrywiol o gyfleoedd ar gael i ddysgwyr y Sir. Mae gan y Fenter rôl allweddol wrth ddarparu pont i ddysgwyr i fewn i'r gymuned cyfrwng Cymraeg lleol a chefnogaeth ar hyd y daith honno.

Mudiadau a sefydliadau eraill

- Cwmni Drama CwmNi
- Papur Bro Cwm Ni
- Grwp Dysgwyr Dan y Graig, Rhisga
- Cylch Llen Bro Elyrch
- Capeli cyfrwng Cymraeg : Bryn Seion, Ystrad Mynach; Bethel, Caerffili a Thonyfelin, Caerffili
- Côr CwmNi
- Eisteddfod y Cymoedd

Cymuned ar-lein cyfrwng Cymraeg

Rhwydwaith cymunedol arall wrth gwrs yw un nad yw'n ddaearyddol ei natur fel nodwyd uchod. Mae'n werth crybwyll arferion siaradwyr Cymraeg o safbwynt eu defnydd o'r iaith ar y we, naill ai fel cyfrwng cyfathrebu rhwng teulu a ffrindiau neu'n ehangach o safbwynt y defnydd posibl y gall y Fenter ac eraill ei wneud o gyfryngau cymdeithasol wrth gyfathrebu a hyrwyddo.

Yn ôl astudiaeth ymchwil Prifysgol Bangor *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned*, nodir bodolaeth cymuned Gymraeg ar-lein 'fel lleoliad newydd i ddefnyddio iaith a datblygu rhwydweithiau ieithyddol ehangach'.

Mae'r Arolwg Defnydd hefyd yn talu sylw i gyfryngau cymdeithasol yng nghyd-destun defnydd, gan nodi mai ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg wrth anfon negeseuon testun a bod rhwng 12-18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Twitter a Facebook yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae byd technoleg yn faes allweddol i hwyluso'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r Fenter wedi adnabod potensial cyfryngau newydd i ddenu cynulleidfaoedd Cymraeg drwy e-chlysur a defnydd o survey monkey er enghraifft i gasglu barn ar anghenion. Mae'n bwysig parhau i ymestyn dulliau cyfathrebu ymhellach ee Twitter, Snapchat ac yn y blaen gan fod sicrhau digon o opsiynau cyfathrebu yn galluogi pobl ifanc i ymateb yn well i'r hyn maen nhw'n ei ddefnyddio ac wedi arfer ag ef i gyfathrebu.

Yn ogystal, mae'r Fenter wedi datblygu darpariaeth cyfleoedd digidol sylweddol i blant a phobl ifanc ac wedi creu cymuned ar-lein cyfrwng Cymraeg lleol. Mae'r ddarpariaeth hon yn allweddol o safbwynt sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol i bobl ifanc ac ein bod yn medru cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl leol dilyn eu diddordebau a chysylltu â siaradwyr Cymraeg eraill.

12. Astudiaethau Perthnasol

Dadansoddiad SWOT

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Rheolaeth effeithiol gan ymddiriedolwyr a staff gweithgar • Gwirfoddolwyr brwd a phrofiadol • Cynrychioli anghenion lleol • Gweithio mewn partneriaeth â thrawstoriad o fudiadau a sefydliadau eraill • Aelod o rwydwaith cenedlaethol y Mentrau Iaith • Llwyddo i ddenu nawdd sylweddol yn flynyddol ar gyfer cymunedau'r sir • Datblygu gwasanaeth gofal hunangynhaliol sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol • Creu swyddi lleol • Dealltwriaeth ddwys o natur ieithyddol y sir 	<ul style="list-style-type: none"> • Dim digon o adnoddau i ehangu'n bellach • Diffyg adnoddau ariannol a dynol mewn rhai meysydd gweithgaredd • Diffyg cyllideb hyfforddiant • Diffyg cyllideb marchnata • Angen cryfhau proffil cyhoeddus, delwedd a dulliau marchnata a hyrwyddo • Cynnig gwasanaeth er mwyn llenwi bwlch a chwrdd ag angen heb fuddsoddiad ariannol digonol gan y corff a ddylai fod yn darparu'r gwasanaeth
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> • Arian Ewropeaidd hyd 2021 • Tendrau • Gwerthu gwasanaethau • Cryfhau perthynas gydag adrannau amrywiol yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru • Sicrhau rhagor o gytundebau lefel gwasanaeth • Partneriaethau newydd • Cydweithio ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol gyda Mentrau Iaith eraill • Cronfeydd newydd ariannol • Datblygu'r gwefan a dulliau marchnata • Cynyddu nifer ein defnyddwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Staff yn symud ymlaen a'r Fenter yn colli profiad, sgiliau ac arbenigedd • Cynlluniau grant yn dod i ben • Colli aelodau profiadol o'r Bwrdd Rheoli • Cystadleuaeth gynyddol am gyllid • Diffyg cefnogaeth wleidyddol yn genedlaethol ac ar lefel lleol i dwf y Gymraeg. • Lleihad yn y galw am ein gwasanaethau sy'n cynhyrchu incwm, yn arbennig Gofal Plant • Effaith COVID-19

Dadansoddiad PEST**Gwleidyddol**

- Dim gymaint o ffocws gwleidyddol ar effaith Brexit ar gymunedau Cymru
- Ansicrwydd parhaus i ddyfodol y Gymraeg
- Ffocws ar etholiad nesaf Senedd Cymru cyfleoedd a bygythiadau
- Potensial am gonsensws gwleidyddol i'r Gymraeg a gweledigaeth i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg
- Canlyniad etholiadau nesaf Senedd Cymru, un blaid yn arwain neu clymbleidio
- Etholiadau nesaf Llywodraeth Leol
- Mesur y Gymraeg 2011 – normaleiddio defnydd o'r Gymraeg
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- agwedd negyddol gan adrannau o Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru tuag at y Gymraeg a gwaith y Fenter

Economaidd

- Effaith dirwasgiad ar gymunedau Cymru
- Effaith Covid-19 ar economi yr ardal.
- Effaith posib o economi ardaloedd eraill y DG yn adfywio yn gyflymach nac economi Cymru
- Lefel cyflogau cyfartaledd
- Tlodi gwledig a trefol a newidiadau mewn mathau o dlodi h.y. cyfartaledd cyflog byw
- Prisiau tai a'i fforddadwyedd
- agwedd negyddol gan cyllidwyr tuag at fuddsoddi yn y Gymraeg
- cyfleoedd UE i ariannu cynlluniau newydd y ystod y cyfnod byr dymor
- Ansicrwydd ynghylch cyllid a rhaglenni cronfeydd strwythurol i olynu arian yr UE
- Sgil effeithiau llymder, ar yr economi a gwasanaethau lleol
- Cyfleoedd i fwydo mewn i raglenni economaidd rhanbarthol a'r economi sylfaenol.
- Cyfleoedd i greu a datblygu mentrau economaidd a chymdeithasol

Cymdeithasol

- Poblogaeth Cymru / yr ardal yn heneiddio
- Effaith mewnfudo pobl hŷn ac allfudo pobl ifanc
- Argaeledd arweinwyr cymunedol
- Awydd yn lleol i ddefnyddio ac ymfalchïo yn y Gymraeg
- Agwedd negyddol tuag at y Gymraeg
- Mewnfudo gan di-Gymraeg
- dim defnydd o'r Gymraeg gan siaradwyr
- Amrywiaeth o fewn sefydliadau gwirfoddol a defnydd o'r Gymraeg oddi mewn iddynt
- Cyfleoedd cymdeithasol
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Sut mae pobl iau yn cymryd rhan
- Ffocws ar newid agweddau a dylanwad ffactorau sydd yn gysylltiedig a'i gilydd.
- Dylanwad posib Covid-19 ar weithgareddau y dyfodol

Technolegol

- Defnydd o dechnoleg ar draws rhychwant oedran
- Cynnydd mewn cymhwysedd digidol o ganlyniad i Covid-19
- Rhwydweithiau cymdeithasol
- Adnoddau sydd ar gael
- Rheoliadau a cyfyngiadau megis GDPR o ran ysgogiad i gydweithio a rhannu gwybodaeth
- Yr isadeiledd TG o fewn yr ardal
- Sgiliau digidol - cynnydd ond bylchau mewn sgiliau digidol rhai grwpiau yn enwedig grwp oedran 50+
- Cyfle i ddatblygu mentrau newydd yn seiliedig ar dechnoleg
- Defnyddio technoleg i leihau costau

5. Casgliad

Mae'r proffil hwn wedi dwyn ynghyd

- prif ystadegau siaradwyr Cymraeg yr ardal hon
- y prif ofynion statudol sy'n berthnasol i bartneriaid allweddol y Fenter
- nifer o ganfyddiadau ymchwil o safbwynt patrymau defnydd siaradwyr Cymraeg yr ardal
- canlyniadau yr arolwg a gynhaliwyd sy'n amlgu profiadau amrywiaeth o fudiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod cyfnod clo cyntaf COVID-19

Drwy edrych ar y prif negeseuon sy'n deillio o brofiadau pobl yn yr ardal ochr yn ochr â'r data swyddogol, mae anghenion sawl maes yn dod i'r amlwg:

- yr angen am fwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol (o faes hamdden, i fyd gwaith)
- yr angen am fwy o gyfleoedd i gynyddu hyder ac ehangu defnydd siaradwyr Cymraeg di-hyder a dysgwyr mewn sefyllfaoedd newydd
- yr angen i gyflogwyr gydnabod gwerth y Gymraeg i'w gweithleoedd a sicrhau cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg
- yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn fwy amlwg yn y gymuned er mwyn hybu defnydd ehangach – yn glywadwy ac yn weladwy (er enghraifft drwy ddefnyddio bathodynau ac arwyddion iaith Gwaith).

Mae gwaith Menter Caerffili yn seiliedig ar adnabyddiaeth dda o'i chymunedau ac anghenion ei chymunedau ac mae'n meddu ar greadigrwydd a hyblygrwydd o ran mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Mae gallu gan y Fenter i ymateb yn arloesol i anghenion lleol drwy brosiectau â phartneriaid ac ar draws sawl sector, fel y gwelir gyda Ffiliffest a chynlluniau lleol.

Agwedd arall sydd yn dod i'r amlwg yng ngwaith y Fenter yw nid ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru yn unig mae'n gwneud, ond mae'r gweithgareddau/gwasanaethau a ddarperir gan y Fenter hefyd yn cryfhau ac yn cyfoethogi'r hyn sy'n digwydd yn statudol ar lefel leol i hybu'r Gymraeg a chreu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae angen i awdurdodau lleol a'u partneriaid ymateb i Safonau'r Gymraeg, Cymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Mwyn na Geiriau – lluo o ofynion ynglŷn â gwella gwasanaethau a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Felly, ni fu amser gwell i bwysleisio pwysigrwydd, cryfder ac arbenigedd y Fenter a'i phartneriaid fel ffynhonnell o gyngor ac arweiniad.

Mae cyfle gan bartneriaid a chyrrff i droi at y Fenter i gyd-gynllunio'n strategol ar draws nifer o sectorau i hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu hardaloedd, gyda chyfleoedd am gydweithio ar draws sawl maes, ee:

- Addysg
- Gwasanaethau ieuenctid
- Hamdden
- Iechyd a Gofal
- Trechu tlodi
- Datblygu economaidd
- Gwaith a sgiliau
- Gwirfoddoli

Nod cynnwys y proffil hwn yw amlygu'r anghenion sy'n codi er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg yn y cymunedau ar draws yr ardal hon. Nid at sylw'r Fenter yn unig yw'r proffil hwn. Mae'n crynhoi yr hyn sydd angen digwydd ar lefel ehangach na'r Fenter ei hun, er mwyn creu sefyllfa gryfach i'r Fenter allu parhau i ddatblygu ac ehangu ei darpariaeth yn y ffordd mwyaf strategol ac effeithiol.